Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

# **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 753A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Dave Thomas, Anthony Veale, Jason Garcia, ac Elaine Matthews oedd y tîm â'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 8 |
| Adran 1: Archwiliad o gyfrifon | 9 |
| Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15 er, trwy wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion gan gyhoeddi adroddiad terfynol ochr yn ochr â'm barn archwilio i esbonio'r ddwy ddyletswydd statudol newydd | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o adnoddau | 13 |
| Yn dilyn y ddarpariaeth o gyllid, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 trwy reoli da yn ystod y flwyddyn a chraffu da ar berfformiad. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau cynllunio ariannol strategol i ymateb i'r amgylchedd ariannol anodd | 13 |
| Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno gweledigaeth eglur, wedi cryfhau gallu Gweithredol ac wedi gwneud gwelliannau i drefniadau llywodraethu. Yr her yn y dyfodol yw mireinio, cynnal ac ymsefydlu'r trefniadau hyn ymhellach trwy gydol y sefydliad | 15 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol i sicrhau defnydd gwell o adnoddau | 21 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 28 |
| Ffi archwilio | 29 |
| Risgiau archwilio sylweddol | 30 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio yr wyf wedi ei wneud ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi ei wneud yn y Bwrdd Iechyd yn galluogi imi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o'i adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad ar gael yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod gyda swyddogion, gan gytuno ar eu cywirdeb ffeithiol, a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
   Dangosir yr adroddiadau yr wyf wedi eu cyhoeddi yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Ionawr 2016. Bydd yn cael ei gyflwyno wedyn i gyfarfod Bwrdd dilynol a bydd copïau'n cael eu darparu i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn annog yn gryf i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun (www.archwilio.cymru).
5. Caiff y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio eu crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwiliad o gyfrifon

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Trwy wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion gan gyhoeddi adroddiad terfynol ochr yn ochr â'm barn archwilio i esbonio'r ddwy ddyletswydd statudol newydd.

6. Mae fy adroddiad terfynol yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
7. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
   - bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n iawn ac yn berthnasol gywir;
   - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd reoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd penodol lle gellir gwneud gwelliannau; a
   - bod systemau ariannol a chyfrifo sylweddol y Bwrdd Iechyd wedi'u rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2014-15. Rwy'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol a threfniadau rheoli ariannol yn fwy manwl yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o'i adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith Asesu Strwythuredig sydd wedi archwilio trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, addasrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed o ran y materion gwella a nodwyd y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad mewn meysydd penodol o'r ddarpariaeth o wasanaethau hefyd. Mae'r gwaith hwn wedi arwain imi ddod i'r casgliadau canlynol:

### Yn dilyn y ddarpariaeth o gyllid, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 trwy reoli da yn ystod y flwyddyn a chraffu da ar berfformiad. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau cynllunio ariannol strategol i ymateb i'r amgylchedd ariannol anodd

**10.** Gweithredodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol yn 2014-15.

**11.** Ar ddiwedd mis Medi 2015, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa alldro diwedd blwyddyn gytbwys yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol, er bod yr amgylchedd ariannol yn dal i fod yn anodd.

**12.** Mae'r dyraniad ychwanegol o £25 miliwn ar gyfer oes y cynllun tymor canolig integredig tair blynedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dull mwy arloesol a gweddnewidiol o wasanaethau a darpariaeth ariannol. Mae angen pwyslais parhaus hefyd i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o gynlluniau arbedion a sicrhau bod y trefniadau llywodraethu craidd sy'n cefnogi rheolaeth ariannol wedi'u hymsefydlu a'u cynnal yn llawn.

### Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno gweledigaeth eglur, wedi cryfhau gallu Gweithredol ac wedi gwneud gwelliannau i drefniadau llywodraethu. Yr her yn y dyfodol yw mireinio, cynnal ac ymsefydlu'r trefniadau hyn ymhellach trwy gydol y sefydliad

**13.** Mae trefniadau cynllunio wedi gwella, a cheir tystiolaeth o hynny yn y gymeradwyaeth Weinidogol o'r cynllun tymor canolig integredig. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2016-17 yn ei gwneud yn ofynnol i ddiweddaru'r cynllun tymor canolig integredig cymeradwy presennol erbyn 29 Ionawr 2016. Mae angen adnewyddu cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd i roi sylw i ofynion Llywodraeth Cymru a'i gryfhau i sicrhau pwyslais ar allbynnau a chanlyniadau. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu proses drylwyr sy'n cynnwys model a chylch cynllunio blynyddol i fodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn cyflwyno gweledigaeth eglur, er bod lle i hogi ei gynnwys yn ei fersiwn nesaf.

14. Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu gynhwysfawr, tîm Gweithredol wedi'i gryfhau a phortffolios Gweithredol diwygiedig yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn gwell sefyllfa i fodloni ei amcanion strategol. Yr her nawr yw sicrhau bod gwydnwch, capasiti a phrofiad digonol yn y tîm Gweithredol i gynnal cyflymder newid priodol, i gryfhau capasiti rheoli gweithredol, ac i sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd cywir rhwng trefniadau darparu penodol i ardaloedd lleol ac ar draws Powys gyfan.

15. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei effeithiolrwydd cyffredinol trwy atgyfnerthu ei drefniadau pwyllgor, gwella rheolaethau mewnol a rhoi gwybodaeth am berfformiad sy'n cefnogi craffu a phenderfyniadau effeithiol. Mae angen mireinio dulliau sicrwydd ymhellach gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli risg ac ymsefydlu'r fframwaith sicrhau ansawdd.

16. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth trwy strategaeth a chynllun gweithredu wedi'u diweddaru, ac mae ei Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n fwy effeithiol, er bod angen mynd i'r afael â phroblemau cyson risg uchel yn gyflymach.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol i sicrhau defnydd gwell o adnoddau

17. Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir nifer o alluogwyr allweddol o ddefnydd effeithlon, effeithiol a chynnil o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi dynodi bod y Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda newid uchelgeisiol ac yn gweithio i gryfhau ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltu a gwaith partneriaeth i gefnogi gweddnewidiad, ond mae risgiau sylweddol yn parhau o fewn yr ystâd.

18. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfleu elfennau allweddol o'i raglen weddnewid ac mae'n ymwybodol mai'r her nawr yw sicrhau y gall fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.

19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â'r heriau yn ei ystâd a swyddogaeth ei ystâd, er bod angen gwneud llawer o waith o hyd i roi sylw i gyflwr gwael yr ystâd.

20. Mae gwaith partneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn mynd rhagddo'n gyflym, mae cyfathrebu â'r cyhoedd yn dod yn fwy tryloyw, ond mae llawer iawn i'w wneud o hyd i gasglu a dysgu o brofiad y claf.

21. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad hefyd wedi cynnwys archwiliadau o feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau yn y Bwrdd Iechyd. Dyma'r casgliadau allweddol o'r gwaith hwnnw:
    - Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflwyno gwasanaeth rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr yn ei ysbytai cymuned a cheir strategaeth eglur a chyllid i gefnogi'r gwaith o ehangu'r gweithlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r broses o gyflenwi a storio meddyginiaethau, i gryfhau prosesau rheoli meddyginiaethau ac i fonitro a gwella perfformiad.

- Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer rheoli apwyntiadau cleifion allanol dilynol lleol sydd wedi'u gohirio a threfniadau i gefnogi'r gwaith o weddnewid gwasanaethau. Ond mae'n rhaid iddo wneud mwy i asesu risgiau clinigol, i wella craffu'r Bwrdd ac i ddeall y sefyllfa ar gyfer mwyafrif cleifion Powys sy'n cael eu trin y tu allan i'r sir.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y profiad amser bwyd, i reoli costau'n fwy effeithiol ac i wella'r gwaith o adrodd ar berfformiad.

**22.** Yn fwy eang, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er nad oes camau gweithredu pwysig wedi'u cymryd o hyd mewn ychydig o feysydd allweddol.

**23.** Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**24.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi'r canfyddiadau allweddol o'r gwaith archwilio yr wyf i wedi ei wneud rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Tachwedd 2015.

**25.** Caiff fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd ei gyflawni fel ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004[1]. Mae'r ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol imi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd imi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**26.** O ran (c), rwyf wedi cymryd sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed yn rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd ariannol, a defnydd o adnoddau;
- archwiliadau o archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

**27.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynir yn yr adroddiadau manylach hyn, ac mae rhestr ohonynt n Atodiad 1.

**28.** Caiff y canfyddiadau o fy ngwaith eu hystyried o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwiliad o gyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o adnoddau

**29.** Mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi ar gyfer costau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith i yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

**30.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio yn 2015 a sut y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: Archwiliad o gyfrifon

**31.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Y datganiadau hyn yw'r ffordd a ddefnyddir gan y sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a chyflwyno ei gostau gweithredu net, ei enillion a cholledion a gydnabyddir, a'i lifoedd arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn elfen hanfodol ar gyfer dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

**32.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol imi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn cynnig safbwynt gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiad perthnasol –a yw wedi ei achosi gan dwyll neu trwy gamgymeriad;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i gael ei harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- chysondeb y gwariant a'r incwm.

**33.** Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA).

**34.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried addasrwydd:

- amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd; a
- systemau ariannol ar gyfer cynhyrchu'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15, er, trwy wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion gan gyhoeddi adroddiad terfynol ochr yn ochr â'm barn archwilio i esbonio'r ddwy ddyletswydd statudol newydd

### Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir

**35.** Fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol, cyflwynwyd cyfrifon heb eu harchwilio'r Bwrdd Iechyd yn brydlon, roeddent o ansawdd da ac wedi'u hategu â phapurau gwaith eglur.

**36.** Mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol imi hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am faterion sy'n deillio o'm gwaith cyn imi fynegi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Soniodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol wrth Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd am y materion hyn ar 2 Mehefin 2015. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

## Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Barn ac adroddiad archwilio ar y cyfrifon | Fel yr adroddir uchod, rwyf wedi mynegi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cyhoeddais adroddiad terfynol ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio. |
| Cywiro camddatganiadau | Yn ystod yr archwiliad gwnaed rhai cywiriadau i gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol drafft, yn deillio o faterion a nodwyd o'n profion archwilio. Fodd bynnag, ni effeithiodd y rhain ar y sefyllfa alldro a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd. |
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nododd ein gwaith fod croniad y contract fferylliaeth wedi'i or-ddatgan o £142,000.<br>Roedd nifer fach o fân-gamddatganiadau heb eu cywiro yr hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio amdanynt hefyd. Mân-gamgymeriadau unigol oedd y rhain ac ni wnaethant godi o ganlyniad i unrhyw fethiannau yn nhrefniadau cau i lawr datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. |
| Adroddiad cydnabyddiaeth | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad cydnabyddiaeth i Lywodraeth Cymru ac ar gyfer ei archwilio erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno. Nododd ein harchwiliad nifer o ddiwygiadau a datgeliadau ychwanegol a oedd yn ofynnol i'r adroddiad cydnabyddiaeth. Ar ôl i'r adran Gyllid gwblhau'r adroddiad cydnabyddiaeth, rydym yn argymell bod y datgeliadau'n cael eu gwirio a'u cytuno â'r adran Adnoddau Dynol wedyn, cyn i'r adroddiad gael ei rannu gyda chyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol a fydd yn ei adolygu. |
| Polisi taliadau'r sector cyhoeddus | Er bod y datganiadau ariannol yn sôn am fethiant y Bwrdd Iechyd i fodloni'r targed o dalu 95 y cant o gredydwyr nad ydynt yn gysylltiedig â'r GIG o fewn 30 diwrnod, nid oedd y system a ddefnyddiwyd i gynhyrchu gwybodaeth dalu o ran contractwyr gofal sylfaenol yn darparu digon o wybodaeth ystadegol i ddangos bod taliadau gofal sylfaenol yn cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod. Felly nid oedd modd mesur effaith y mater hwn ar y perfformiad yr adroddwyd arno. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y mater hwn sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn 2015-16. |

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Bodolaeth asedau | Gallai prosesau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cadarnhau bodolaeth asedau ac adolygu asedau ar gyfer gwanhad fod yn fwy cadarn. Argymhellwyd gennym y dylid cyflwyno prosesau ffurfiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob perchennog asedau gwblhau datganiadau blynyddol yn cadarnhau eu bod wedi ystyried pob ased o dan eu stiwardiaeth ar gyfer bodolaeth a gwanhad. |
| Cytundebau hirdymor gyda darparwyr iechyd yn Lloegr | Llofnodwyd nifer o gytundebau lefel gwasanaeth neu hirdymor yn hwyr ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn dal i fod yn risg, yn enwedig pan fo'r Bwrdd Iechyd wedi herio costau neu lefel gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn unol â'r cytundebau hyn. |

**37.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i esbonio'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.

- Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd o ran adnoddau, trwy eu caniatáu i gydbwyso eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod parhaus o dair blynedd, gan ddisodli'r ddyletswydd i gydbwyso eu cyfrifon dros gyfnod o flwyddyn. 2014-15 i 2016-17 yw'r cyfnod tair blynedd cyntaf o dan y ddyletswydd hon. Felly ni fydd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswydd hon yn cael ei fesur tan 2016-17. O ran 2014-15, gweithredodd y Bwrdd Iechyd yn unol â'i ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol a'i ddyraniad adnoddau cyfalaf.
- Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ddyletswydd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig parhaus a chael cymeradwyaeth iddo gan Weinidogion Cymru. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fodloni ei ail ddyletswydd ariannol i fod â chynllun tymor canolig integredig wedi'i gymeradwyo ar waith ar gyfer y cyfnod 2014-15 i 2016-17. Rwy'n nodi rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

**38.** Cynhaliais yr adolygiadau canlynol yn rhan o'm harchwiliad ariannol hefyd:

- Cyflwyniad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth am gydgrynhoi gwrthbartïon yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015 ac roedd y cyflwyniad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Adroddiad Cydnabyddiaeth – Deuthum i'r casgliad fod yr Adroddiad Cydnabyddiaeth wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfeiriadau a wneir ynddi gan Weinidogion Cymru; a

- Datganiadau Ariannol Cryno ac Adroddiad Blynyddol– Deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**39.** Mae fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol cyllid elusennol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 9 Rhagfyr 2015. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o ganlyniad i'm gwaith.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd penodol lle gellir gwneud gwelliannau

**40.** Ceir nifer o feysydd penodol yr wyf wedi eu hystyried yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwaith yr Archwilwyr Mewnol. Rydym yn hysbysu am y rhain pan nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt neu pan allant fod yn nodweddiadol o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol.

**41.** Mae Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlygu nifer o wendidau penodol y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i roi sylw iddynt. O ran rheoli mewnol, daw'r Adroddiad i'r casgliad y gellir cymryd sicrwydd rhesymol ar gyfer y sicrwydd sylfaenol am barthau llywodraethu a rheoli ariannol ac ansawdd llywodraethu clinigol a llywodraethu corfforaethol diogelwch, rheoli risg a chydymffurfiad â rheoliadau, ynghyd â llywodraethu a rheoli ariannol. Fodd bynnag, ystyrir mai sicrwydd cyfyngedig sydd o ran parth llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a chydymffurfiad â rheoliadau. Ystyrir bod tri pharth arall yn rhai sicrwydd cyfyngedig hefyd.

**42.** Nid yw ein gwaith archwilio wedi nodi unrhyw faterion ychwanegol sy'n berthnasol i gywirdeb a chyflawnrwydd y datganiadau ariannol.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifo sylweddol y Bwrdd Iechyd wedi'u rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**43.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, adolygu'r amgylchedd rheoli mewnol i asesu a yw'n cynnig sicrwydd bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy gamgymeriad neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r brif system gyfrifo, rheoli cyllidebol a phrosesau cau i lawr ac yn cynnwys asesiad o'r mesurau rheoli seilwaith a chymwysiadau cyfrifiadurol. Rwyf hefyd yn ystyried gwaith a swyddogaeth archwilwyr mewnol yn rhan o'r asesiad hwn. Ni wneuthum nodi unrhyw wendidau perthnasol yn amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.

**44.** Cyfeiriwyd at nifer o faterion hefyd yn ein Memorandwm Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2015. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o argymhellion yn ymwneud â rheoli ariannol, adroddiadau ariannol a threfniadau llywodraethu ehangach.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o adnoddau

**45.** Mae'n ofyniad statudol imi fodloni fy hun bod gan gyrff GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb yn y defnydd o'u hadnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran darparu cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd trwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed mewn meysydd gwella a nodwyd ers y llynedd;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar reoli meddyginiaethau, gwaith dilynol ar apwyntiadau cleifion allanol, ac adolygiadau archwilio lleol, sy'n cynnwys adolygiad o drefniadau Adran 33 – Partneriaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar y cyd â Chyngor Sir Powys (y Cyngor) ac adolygiad o ategu data ac ystafelloedd cyfrifiaduron; ac
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar arlwyo a maeth cleifion ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.

**46.** Caiff y prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn eu crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Yn dilyn y ddarpariaeth o gyllid, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 trwy reoli da yn ystod y flwyddyn a chraffu da ar berfformiad. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau cynllunio ariannol strategol i ymateb i'r amgylchedd ariannol anodd

### Gweithredodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol yn 2014-15

**47.** Ar 31 Mawrth 2014, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd yn rhedeg o 2014-15 tan 2016-17 a oedd yn dangos bod gwariant yn sylweddol uwch na'r terfyn adnoddau a ragwelwyd dros y tair blynedd. Ym mis Mai 2014, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn gallu cymeradwyo cynllun y Bwrdd Iechyd ar sail tymor canolig a bod angen i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno camau y gellir eu cyflawni a'u gweithredu ar gyfer 2014-15. Wedi hynny, datblygwyd cynllun 'cytundeb cyflawni' blwyddyn o hyd ar gyfer 2014-15.

**48.** Ar ddechrau 2014-15, nododd y Strategaeth Ariannol a Chyllideb fwlch ariannol cychwynnol o £27.2 miliwn ar gyfer 2014-15. Roedd gan y Bwrdd Iechyd reolaeth

gyllidebol dda yn ystod y flwyddyn a chyrhaeddwyd 90 y cant o'r targedau arbedion erbyn diwedd y flwyddyn.

**49.** Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddyraniad adnoddau yn ystod y flwyddyn ychwanegol o £25 miliwn ym mis Rhagfyr 2014. Ym mis Mai 2015, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd adennill y diffyg o £19.264 miliwn yr aethpwyd iddo yn 2013-14. Ar 31 Mawrth 2015, hysbysodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi gweithredu'n unol â'i ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol.

## Ar ddiwedd mis Medi 2015, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa alldro diwedd blwyddyn gytbwys yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol, er bod yr amgylchedd ariannol yn dal i fod yn anodd

**50.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cyflwyno trefn gyllid fwy hyblyg. Mae'n darparu dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd i fyrddau iechyd lleol gydbwyso eu cyfrifon dros dair blynedd ariannol barhaus yn hytrach na bob blwyddyn. Mae'r ddeddf yn galluogi byrddau iechyd lleol i ganolbwyntio eu penderfyniadau a'u gweithrediadau cynllunio gwasanaethau, gweithlu ac ariannol dros gyfnod hwy. Mae hyn yn haws ei reoli ac yn symud oddi wrth drefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor ar sail y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd ariannol yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi cynlluniau tymor canolig integredig digon cadarn, a chymeradwyaeth ffurfiol i'r cynlluniau hynny gan Weinidogion Cymru.

**51.** Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun tair blynedd o 2015-16 i 2017-18 yn ei Gyfarfod Bwrdd ar 19 Mawrth 2015. Cyflwynwyd y cynllun tair blynedd i Lywodraeth Cymru wedyn ar 27 Mawrth 2015. Mae'r cynllun tair blynedd o 2015-16 i 2017-18 yn gynllun cytbwys o ran ei ddyraniad refeniw a'i wariant net arfaethedig. Fodd bynnag, wrth gyflwyno ei gynllun tair blynedd i Lywodraeth Cymru, tynnodd y Bwrdd Iechyd sylw at nifer o heriau a risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun. Derbyniodd y cynllun tair blynedd o 2015-16 i 2017-18 gymeradwyaeth y Gweinidogion yn y pen draw ym mis Mehefin 2015.

**52.** Ym mis 6 (Medi 2015), mae'r Bwrdd Iechyd yn hysbysu sefyllfa gytbwys ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn ac yn rhagweld sefyllfa alldro diwedd blwyddyn gytbwys yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol.

**53.** Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn yn gyffredinol i fodloni targedau ei gynllun rhaglen arbedion ar ddiwedd y flwyddyn. Mae targedau arbedion sy'n dod i gyfanswm o £6.688 miliwn wedi'u cynnwys yng nghynllun ariannol 2015-16. Roedd y Bwrdd Iechyd yn hysbysu ei fod ychydig yn brin o'i gynlluniau arbedion erbyn mis 6.

**54.** Mae'r dyraniad ychwanegol o £25 miliwn yn ystod oes y cynllun tymor canolig integredig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dull mwy arloesol a gweddnewidiol o wasanaethau a darpariaeth ariannol. Yn hanesyddol, bu angen i reoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd ganolbwyntio'n drwm ar sicrhau cydbwysedd ariannol. Er y bydd yr angen i wneud arbedion yn parhau i fod yn flaenoriaeth, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd bod y capasiti a'r setiau sgiliau ganddo i gefnogi'r cynllunio ariannol mwy strategol a fydd yn ofynnol yn rhan o'r newid gweddnewidiol a nodir yn y cynllun tymor canolig integredig.

55. Mae angen pwyslais parhaus i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o gynlluniau arbedion a sicrhau bod y trefniadau llywodraethu craidd sy'n cefnogi rheolaeth ariannol wedi'u hymsefydlu a'u cynnal yn llawn. Mae angen pwyslais parhaus ar reoli galw gydag Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr; gwariant ar asiantaethau, sydd ar ei lefel uchaf; rheoli'r risg o gyflawni amseroedd atgyfeiriad i driniaeth; a chyflawni gwelliannau o ran gofal iechyd parhaus y GIG.

56. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn gweithio'n fwy effeithiol i graffu ar faterion craidd a'u goruchwylio. Mae'r Pwyllgor yn llawer cryfach nag yn 2014, a cheir lefel dda o her gan Aelodau Annibynnol newydd. Rhoddodd y swyddogion grynodebau ysgrifenedig a llafar da o eitemau agenda ac ymatebasant yn dda i heriau a chwestiynau. Llwyddodd y Pwyllgor i gydbwyso heriau ariannol gydag ansawdd, diogelwch ac urddas cleifion. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cynnwys adroddiadau ariannol, er bod gwaith ar y gweill i roi sylw i hyn.

## Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno gweledigaeth eglur, wedi cryfhau gallu Gweithredol ac wedi gwneud gwelliannau i drefniadau llywodraethu. Yr her yn y dyfodol yw mireinio, cynnal ac ymsefydlu'r trefniadau hyn ymhellach trwy gydol y sefydliad

57. Mae adran hon yr adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ar lywodraethu a sicrwydd y bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:

- cynllunio strategol;
- strwythur ac arweinyddiaeth sefydliadol;
- sicrwydd y Bwrdd a rheolaethau mewnol; a
- llywodraethu gwybodaeth.

### Mae trefniadau cynllunio wedi gwella, a cheir tystiolaeth o hynny yn y gymeradwyaeth Weinidogol o'r cynllun tymor canolig integredig. Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn cyflwyno gweledigaeth eglur, er bod lle i hogi ei gynnwys yn ei fersiwn nesaf

58. Fel y nodir uchod, fe wnaeth y Bwrdd graffu ar y cynllun tymor canolig integredig a'i gymeradwyo cyn 1 Ebrill 2015, a derbyniodd y cynllun gymeradwyaeth Weinidogol ym mis Mehefin 2015. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2016-17 yn ei gwneud yn ofynnol cael diweddariad o'r cynllun tymor canolig integredig presennol erbyn 29 Ionawr 2016. Mae angen adnewyddu cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd i roi sylw i ofynion Llywodraeth Cymru a'i gryfhau i sicrhau pwyslais ar allbynnau a chanlyniadau. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu proses drylwyr sydd â model a chylch cynllunio blynyddol i fodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.

59. Wrth gymeradwyo'r cynllun tymor canolig integredig ym mis Mehefin 2015, nododd Llywodraeth Cymru fod ganddo fân ofynion o ran yr angen i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu cyfres o Gynlluniau Cyflawni Gwasanaethau GIG Cymru sy'n cysylltu â'r cynllun tymor canolig integredig. Dechreuwyd gweld cynnydd wrth ddatblygu ymatebion i'r cynlluniau cyflawni cenedlaethol yn araf. Derbyniodd y Bwrdd fod angen i'r Bwrdd Iechyd

flaenoriaethu datblygiad y cynlluniau pwysicaf oherwydd adnoddau cyfyngedig yn y tîm cynllunio a pherfformiad. Heb roi'r rhain ar waith, mae perygl nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cadw ei waith cynllunio gwasanaethau yn berthnasol ac yn gyfredol.

**60.** Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddeall a dylanwadu ar y nifer fawr o gynlluniau y mae darparwyr yn eu datblygu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir mewn ardaloedd cyfagos yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'r Adroddiad Cynllunio Strategol i'r Bwrdd ym mis Awst 2015 yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r heriau hyn. Mae gan ddarparwyr yn Lloegr eu problemau eu hunain a cheir pryderon arbennig yn Wye Valley NHS Trust sy'n destun mesurau arbennig. Bydd angen cadw'r rhain mewn golwg i fonitro'r risgiau i'r ddarpariaeth o wasanaethau ac ansawdd gofal. Her benodol arall i'r Bwrdd Iechyd yw bod ymgysylltiad ystyrlon â'r holl ddarparwyr yn cymryd adnoddau sylweddol.

**61.** Cymeradwywyd Cynllun Blynyddol 2015-16 ym mis Ebrill 2015. Mae wedi'u strwythuro'n eglur o gwmpas y chwe nod y cytunwyd arnynt yn lleol. Ar gyfer pob un o'r rhain, mae'r Bwrdd wedi pennu blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer 2015-16. Caiff pob blaenoriaeth ei hategu gan nifer o amcanion, mesurau a chanlyniadau gweithredol a byddant yn gysylltiedig â thargedau neu sbardunau cenedlaethol a lleol. Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd ar gyflawniad yn erbyn amcanion y cynllun blynyddol yn ddigon cynhwysfawr ac eglur i gefnogi her. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro ac yn hysbysu am gynnydd yn erbyn y tasgau unigol yn y cynllun tymor canolig integredig, gan nad yw bob un o'r rhain wedi'u nodi yn y cynllun blynyddol presennol. Mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi ei fod yn bwriadu sicrhau cydymffurfiad llawn â'r cynllun tymor canolig integredig wedi'i adnewyddu.

**62.** Gadawodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mai 2015. Penodwyd Cyfarwyddwr dros dro yn gyflym ond ni chafodd y swydd ei llenwi'n barhaol eto. Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad o fewn y sefydliad presennol. Dylai'r tîm newydd fod ar waith erbyn mis Ebrill 2016.

**63.** Mae trefniadau monitro'r cynllun tymor canolig integredig mwy cadarn ar waith drwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

## Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu gynhwysfawr, tîm Gweithredol wedi'i gryfhau a phortffolios Gweithredol diwygiedig yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn gwell sefyllfa i fodloni ei amcanion strategol. Yr her nawr yw sicrhau bod gwydnwch, capasiti a phrofiad digonol yn y tîm Gweithredol i gynnal cyflymder newid priodol, i gryfhau capasiti rheoli gweithredol, ac i sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd cywir rhwng trefniadau darparu penodol i ardaloedd lleol ac ar draws Powys gyfan

**64.** Penodwyd y Prif Weithredwr ar sail dros dro ym mis Chwefror 2015 ac yna'n barhaol ym mis Mawrth 2015. Rhoddodd hyn sefydlogrwydd gan sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu a allai fod wedi dilyn ar ôl i'r Prif Weithredwr blaenorol adael ym mis Ionawr 2015. Cryfhaodd y Prif Weithredwr ei Thîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn, gan wneud penodiadau parhaol oedd â swyddogaethau, cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau

wedi'u hailddiffinio a newidiadau i bortffolios. Mae gan Weithredwyr amcanion blynyddol clir a swyddogaethau a chyfrifoldebau unigol eglur. Er gwaethaf ymdrechion gan y Bwrdd Iechyd, mae penodi Cyfarwyddwr Meddygol wedi bod yn anodd, er bod penodiadau dros dro wedi cael eu gwneud. Er bod meysydd hanfodol fel ail-ddilysu wedi cael sylw, roedd diffyg momentwm ar draws y maes portffolio hwn.

**65.** Mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno mwy o gywirdeb i atebolrwydd Gweithredwyr. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd Cyflawni a Pherfformiad Gweithredol misol. Mae hyn yn helpu i sicrhau mwy o bwyslais ar gynnydd yn erbyn canlyniadau'r GIG, cynlluniau arbedion a'r angen i sbarduno gwelliant trwy ymateb i argymhellion o adroddiadau gan archwilwyr a rheoleiddwyr eraill. Mae tîm Gweithredol bach yn gyfrifol am bortffolios mawr. Yr her nawr yw sicrhau bod gwydnwch, capasiti a phrofiad digonol yn y tîm Gweithredol i gynnal cyflymder newid cynaliadwy.

**66.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflawni newidiadau angenrheidiol i'r strwythurau arweinyddiaeth a rheoli ar gyfer ei Ardaloedd Lleol a'i Gyfarwyddiaethau o dan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Mae hyn yn lleihau nifer yr ardaloedd lleol i ddau: y Gogledd a'r De (gan gynnwys Ardal Leol flaenorol y Canolbarth). Mae gwasanaethau Anabledd Dysgu'n parhau i gael eu rheoli ar draws Powys tra bod gwasanaethau i Blant yn cael eu rheoli trwy Ardal Leol y Gogledd. Fodd bynnag, nid yw'r cydbwysedd o gyfrifoldebau rhwng y canol a'r ardaloedd lleol yn eglur eto, ac mae angen rhoi rhagor o sylw iddo.

Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei effeithiolrwydd cyffredinol trwy drefniadau pwyllgor wedi'u cryfhau, gwelliannau i reolaethau mewnol a gwybodaeth am berfformiad sy'n cefnogi craffu a phenderfyniadau effeithiol. Mae angen mireinio dulliau sicrwydd ymhellach gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli risg ac ymsefydlu'r fframwaith sicrhau ansawdd

**67.** Mae'r Cadeirydd wedi bod yn ei swydd am ychydig dros flwyddyn ac mae'n gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â diffygion yn y trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd. Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu 2015-16 – 2016-17, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2015, yn nodi rhaglen eglur a phriodol o waith i fynd i'r afael â'r gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn fy Adroddiad Archwilio Blynyddol yn 2014. Bydd datblygu Llawlyfr Llywodraethu Integredig yn gwella eglurder trefniadau llywodraethu ar draws y sefydliad.

**68.** Gwnaed gwaith sylweddol i gynhyrchu amrywiaeth o fframweithiau sicrwydd fel sail i'r trefniadau llywodraethu:

- system sicrhau'r Bwrdd a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2014;
- fframwaith sicrhau risg a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015;
- fframwaith sicrhau perfformiad a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015;
- fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015; ac
- mae fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn cael ei ddatblygu a bydd ar waith o fis Ionawr 2016 ymlaen.

**69.** Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y fframweithiau sicrhau yn gweithio'n ymarferol ac yn cysylltu â'i gilydd yn briodol. Yn benodol, mae angen diweddaru'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg yn dilyn adroddiad archwilio mewnol sicrwydd cyfyngedig ym mis Mai 2015, ac mae angen egluro'r dull ar gyfer uwchgyfeirio risgiau o'r gofrestr risgiau gweithredol i'r Bwrdd. Mae rhagor o waith hefyd yn cael ei wneud i ddeall parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg. Bydd hyn yn bwysig er mwyn hysbysu'n llawn ddull y Bwrdd Iechyd o reoli risg.

**70.** Mae rheolaethau mewnol ar y cyfan yn effeithiol ac mae'r gwasanaeth gwrth dwyll wedi gwella llawer ac mae'n fwy amlwg o fewn y sefydliad. Mae hyn wedi arwain at fwy o hyder ymysg staff i sôn am eu pryderon a chynnydd mewn gwaith ymchwiliol.

**71.** Mae gwaith hefyd ar y gweill i gyflwyno ac ymsefydlu'r Safonau Iechyd a Gofal newydd. Ym mis Ebrill 2015, cyflwynwyd papur yn cyhoeddi lansiad y safonau newydd i'r Bwrdd. Ym mis Mehefin, gwnaeth papur i'r Bwrdd sôn bod rhagor o waith ar y gweill i ddatblygu ac ymsefydlu'r safonau newydd, a ddefnyddir fel sail i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae grŵp llywio'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac mae cynllun pendant ar waith. Yn gadarnhaol, mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch erbyn hyn.

**72.** Bu newid sylweddol i bersonél y Bwrdd rhwng diwedd 2014 a diwedd 2015 gan gynnwys pum Aelod Annibynnol newydd gan fod eu rhagflaenwyr wedi cwblhau eu cyfnodau yn y swydd. Cafodd y gwaith recriwtio ei reoli'n dda ac mae wedi arwain at gyfnod pontio diffwdan i Fwrdd sydd wedi'i adnewyddu. Mae aelodau Bwrdd newydd wedi cyflawni rhaglen sefydlu gynhwysfawr sydd wedi arwain at gyfnod pontio diffwdan i Fwrdd sydd wedi'i adnewyddu ac yn eu cynorthwyo i ddeall y sefydliad yn gyflym a sut i gyflawni eu swyddogaeth. Ym mis Rhagfyr 2015, neilltuwyd swyddogaethau arweiniol neu 'hyrwyddwyr' i aelodau Bwrdd Annibynnol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn dangos ymrwymiad eglur i fod yn agored ac i wella ansawdd gyda chynnydd amlwg i lefel yr her a'r drafodaeth yn y Bwrdd a'r pwyllgorau. Sefydlwyd Rhaglen Datblygu'r Bwrdd gan gynnwys sesiynau i gynnig cymorth parhaus i Aelodau Annibynnol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth.

**73.** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol i ategu ei agenda gwella. Mae'r cynllun a adroddwyd i Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2015 yn cynnig gwybodaeth eglur am gynnydd o ran cyflawni'r amrywiaeth o archwiliadau clinigol lleol ac Adolygiadau Archwilio a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru Gyfan. Cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Clinigol 2013-14 – 2015-16 yn 2013. Mae rhagor o waith ar y gweill i adolygu a datblygu'r strategaeth hon. Nid yw archwilio clinigol yn cyflawni swyddogaeth lawn ar gyfer gwella ansawdd eto ac nid yw ei gyfraniad at sicrhau'r Bwrdd wedi'i sefydlu. Wrth adolygu'r strategaeth archwilio clinigol, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y mae archwilio clinigol yn cysylltu â risgiau ac amcanion strategol.

**74.** Mae newidiadau i strwythur, swyddogaeth ac aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd yn golygu eu bod yn cefnogi'r Bwrdd yn well i fodloni ei amcanion strategol. Adnewyddwyd cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau yn ddiweddar. Ond nid yw cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid Elusennol wedi cael ei adolygu ers mis Ebrill 2010 ac mae angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â rheoliadau presennol.

**75.** Mae Adroddiad Perfformiad Integredig mis Hydref 2015 yn dangos gwelliannau sylweddol i adroddiadau ar berfformiad ers 2014. Yn benodol, mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cefnogi trafodaeth lawn o faterion perfformiad ym mhob cyfarfod Bwrdd; mae'n llawer mwy eglur na'r fersiynau blaenorol ac yn haws i asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn mesurau allweddol yn gyflym, gyda llai o annibendod; mae'r adroddiad yn cynnig cymysgedd dda o naratif, gwybodaeth a data; defnydd eang o graffeg, codio lliw a gwybodaeth am dueddiadau; mae cynnwys naratif yn erbyn pob mesur yn cynnig trosolwg o amrywiad materion allweddol a chynnydd hyd yn hyn; mae naratifau'n aml yn nodi camau unioni ac weithiau pwy sy'n gyfrifol amdanynt; ac mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cyd-fynd â strwythur y cynllun tymor canolig integredig a Fframwaith Canlyniadau'r GIG.

**76.** Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn dal i gael ei ddatblygu ac mae angen gwneud rhagor o waith i roi sylw i rai bylchau; crynodeb sy'n cynnig mwy o wybodaeth; mae angen gwneud rhagor o waith ar feincnodi gyda sefydliadau eraill a'r defnydd o ragamcanion; mae cyfrifoldeb a pharthau perfformiad wedi'u halinio â phortffolios gweithredwyr arweiniol ond nid ydynt wedi'u neilltuo i staff penodedig na phwyllgorau penodol; ei gwneud yn eglur pa gamau ychwanegol sy'n ofynnol, a chan bwy, i wella lle mae targedau wedi llithro; pryderon am ansawdd data sy'n sail i'r Adroddiad Perfformiad Integredig; a gwasanaethau a gomisiynir heb eu hadrodd yn ddigonol.

**77.** Yn rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant trwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm gwaith archwilio â mandad cenedlaethol a'm rhaglen leol o waith archwilio yn ystod 2015. Mae'r gwaith hwn wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymrwymiad i adolygu a rhoi sylw i argymhellion archwiliadau nad ydynt wedi cael sylw eto, argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn awyddus i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ac mae'n adolygu'r cofnod olrhain argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth trwy strategaeth a chynllun gweithredu wedi'u diweddaru, ac mae ei Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n fwy effeithiol, er bod angen mynd i'r afael â phroblemau cyson risg uchel yn gyflymach

**78.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn dechrau gweithio'n fwy effeithiol ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd yn 2015. Mae wedi sefydlu cynllun gwaith erbyn hyn, sy'n disgrifio'r ffynonellau sicrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau i'w waith craffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys pwyslais cryfach ar sicrwydd allweddol a rheoli risgiau. Fodd bynnag, ceir meysydd cyson o hyd lle mae cynnydd yn araf. Mae angen nawr i'r Pwyllgor sicrhau bod craffu yn canolbwyntio ar y meysydd uchel eu risg ac y sicrheir cydlyniad o ran mynd i'r afael â phroblemau cyson.

**79.** Cyflwynwyd partneriaeth ffurfiol (y partneriaid) rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2012 i ddarparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth chyfathrebu (TGCh) gan dîm ar y cyd a ffurfiwyd trwy integreiddio'r timau TGCh o'r ddau sefydliad.

Defnyddiodd y partneriaid gytundeb adran 33[2] fel dull o greu refeniw a chyllid cyfalaf cydgyfrannol. Mae'r cytundeb adran 33 yn cynnig sail ffurfiol ar gyfer gwaith partneriaeth y mae cynlluniau partneriaeth unigol yn cyd-fynd ag ef. Y cynllun TGCh oedd y cynllun cyntaf i ymuno â'r cytundeb, ac fe'i rhoddwyd ar waith o 1 Gorffennaf 2012 ymlaen. Y Cyngor yw cartref y gwasanaeth TGCh ar y cyd a'r cytundeb. Rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor sy'n berthnasol.

**80.** Cafodd adolygiad o'r trefniadau adran 33 yn ymwneud â'r bartneriaeth TGCh ei gynnwys yn fy rhaglen o waith archwilio allanol yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. O safbwynt cyffredinol, canfu fy ngwaith fod partneriaeth TGCh Powys wedi gwella gwydnwch gwasanaethau ac wedi lleihau risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn cynnig sail dda ar gyfer gwaith integredig. Yn fwy penodol, canfuwyd gennyf:

- fod y bartneriaeth TGCh adran 33 wedi cyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt, ond ceir heriau mwy lle mae gwelliannau'n dibynnu ar drydydd parti;
- bod y bartneriaeth TGCh wedi ei sefydlu'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau y cytunir arnynt yn flynyddol ac i gefnogi gwelliant parhaus; a
- bod dulliau da ar gyfer datblygu strategaeth TGCh, ond ceir cyfleoedd o hyd i ddefnyddio technoleg i gefnogi effeithlonrwydd gwasanaeth ehangach.

**81.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn lliniaru'r risgiau sylweddol a nodais yn flaenorol o ran trefniadau ar gyfer creu copi wrth gefn ac ystafelloedd cyfrifiaduron. Er bod gwelliannau pellach yn dal i gael eu gwneud, cyfyngir ar gyflymder y rhain gan gapasiti ac adnoddau yn y tîm TGCh. Nodwyd rhai pryderon gennym yn 2012 yn ymwneud â'r cyfleusterau TGCh blaenorol wedi'u lleoli mewn caban. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran lliniaru llawer o'r risgiau hyn trwy adleoli i ystafell gyfrifiaduron newydd ar yr un safle ym Mronllys.

**82.** Cwblhawyd prawf diagnostig cryno yn 2013 i nodi a oedd angen gwneud rhagor o waith i adolygu trefniadau ategu gwybodaeth sefydliadau GIG Cymru yn fwy manwl, gan wneud nifer o argymhellion, y bwriadwyd eu rhoi ar waith yn ystod hanner cyntaf 2014. Yn gyffredinol, mae trefniadau creu copi wrth gefn priodol ar waith i ddiwallu anghenion y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith i adolygu a gwella'r trefniadau hyn yn parhau trwy ddatblygu cynllun sicrhau TG a threfniadau risg. Cyfyngir ar gyflymder y gwelliannau gan gapasiti ac adnoddau yn y tîm TGCh. Mae mesurau rheoli copïau wrth gefn ar waith yn y Bwrdd Iechyd a chyflawnwyd mesurau gwella pellach ar ôl cyflwyno'r ystafell gyfrifiaduron newydd. Mae offer ategu wedi cael ei adnewyddu a threfniadau monitro ac adrodd wedi gwella.

[2] Cytundeb adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (2006) Rhan 3, Adran 33 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_en.pdf

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol i sicrhau defnydd gwell o adnoddau

**83.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir nifer o alluogwyr allweddol o ddefnydd effeithlon, effeithiol a chynnil o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi dynodi bod y Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda newid uchelgeisiol ac yn gweithio i gryfhau ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltu a gwaith partneriaeth i gefnogi gweddnewidiad, ond mae risgiau sylweddol yn parhau o fewn yr ystâd.

**84.** Caiff y canfyddiadau allweddol eu crynhoi yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – galluogwyr allweddol defnydd effeithiol o adnoddau

| Pwnc | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Capasiti rheoli newydd | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfleu elfennau allweddol o'i raglen weddnewid ac mae angen iddo sicrhau y gall fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.**<br>Mae gan y Rhaglen Weddnewid arweinyddiaeth Weithredol eglur erbyn hyn ac mae'n canolbwyntio ar gyflawni ei helfennau cyfansoddol. Mae'r dull o weddnewid yn gymharol newydd yn y Bwrdd Iechyd a dim ond dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd llawer o'r byrddau rhaglen. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y gall y rhaglenni hyn ddechrau cyflawni ar y cyflymder angenrheidiol. Mae hefyd angen cysylltiadau digonol rhwng cynlluniau arbedion blynyddol, y cynllun tymor canolig integredig a'r rhaglen weddnewid.<br>Cymeradwywyd y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2015. Bydd y Fframwaith yn alluogwr allweddol o ran datblygu diwylliant o welliant parhaus sy'n ofynnol er mwyn bod gan y sefydliad berfformiad uchel. Mae Chat to Change a mentrau datblygu sefydliadol eraill yn paratoi staff ar gyfer newidiadau sydd o'u blaenau. Mae'r gwerthoedd yn cael eu cynnwys yn y broses o adnewyddu'r cynllun tymor canolig integredig. |

| Pwnc | Crynodeb o’r canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystadau | **Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i’r afael â’r heriau yn ei ystâd a gweithrediad ei ystâd, er bod angen gwneud llawer o waith o hyd i roi sylw i gyflwr gwael yr ystâd.**<br>Er bod risgiau ystadau ac asedau sylweddol hirhoedlog yn ymwneud â chydymffurfio ag iechyd a diogelwch, mae’r Bwrdd Iechyd yn dechrau gwneud cynnydd i fynd i’r afael â chydymffurfiad tân, asbestos a thrydanol. Cymeradwywyd cyllid cyfalaf o £3 miliwn ym mis Ionawr 2015 a oedd yn cynnwys y dyraniad cyfalaf dewisol yn ogystal â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol, a chwblhawyd y rhain erbyn diwedd y flwyddyn. Nodwyd gwaith cydymffurfio pellach yn 2015-16. Cyflwynwyd Achos Cyfiawnhau Busnes i Lywodraeth Cymru i wneud cais am gyllid i fynd i’r afael â risgiau cydymffurfio ac iechyd a diogelwch. Ceir risg sylweddol i’r ystâd os na chaniateir y cyllid hwn. Os caiff y cyllid ei ganiatáu, ceir risg o ran cyflawni gan fod bylchau o ran capasiti yn yr adran ystadau.<br>Ym mis Hydref 2015, amlygodd adroddiad cyfalaf chwarter 2 faint o waith sydd ei angen ar ystadau a chydymffurfiad, sef gwerth a amcangyfrifir o £68.5 miliwn. Mae Rhaglen Amlinellol Strategol y Bwrdd Iechyd yn rhoi sylw i’r gwaith cydymffurfio yn y byrdymor i’r tymor canolig. Yn y dyfodol, bydd angen datblygu strategaeth ystadau fwy hirdymor i nodi sut y bydd ystadau ac asedau’n cael eu cynllunio i fodloni modelau llwybr gofal yn y dyfodol. Ni fydd gwelliannau i’r ystâd ar y raddfa hon yn bosibl heb strategaeth ystadau gynhwysfawr. |

| Pwnc | Crynodeb o’r canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth | **Mae gwaith partneriaeth gyda’r awdurdod lleol yn mynd rhagddo’n gyflym, ac mae cyfathrebu â’r cyhoedd yn dod yn fwy tryloyw, ond mae llawer iawn i’w wneud o hyd i gasglu a dysgu o brofiad y claf.**<br>Ceir cynnydd pendant gyda strategaeth Powys yn Un a gweithgareddau’r Bwrdd Gweddnewid. Gwnaed gwaith ar ddiwygio strwythurau llywodraethu; arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygu tîm a gweledigaeth ar y cyd ar gyfer ymgysylltu â staff; a dau dîm gofal integredig ar gyfer pobl hŷn. Mae’r risgiau i’r Bwrdd Iechyd gyda’r agenda integreiddio yn uchel. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a pherfformiad sy’n sail i unrhyw weithgareddau integreiddio yn y dyfodol yn gadarn.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran ei gyfathrebu gan gynnwys cymeradwyaeth i Strategaeth Gyfathrebu wedi’i diweddaru ym mis Hydref 2015. Nod y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o waith y Bwrdd Iechyd trwy sicrhau ymgysylltiad eglur, effeithiol a phrydlon gyda staff, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae buddsoddiad mewn cyfathrebu yn helpu i fynd i’r afael â gwendidau a amlygwyd gan adolygiad annibynnol o gyfathrebu yn 2014.<br>Cymeradwywyd y Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol ym mis Awst 2015. Nod y strategaeth hon yw darparu fframwaith eglur, lefel uchel a pharhaus y gall y Bwrdd Iechyd ei ddefnyddio i ddatblygu ffyrdd cynyddol effeithiol a phriodol o ymgysylltu â’i randdeiliaid niferus ac amrywiol. Bydd hyn yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r agenda newid. Fodd bynnag, nid oes unrhyw grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.<br>Ceir enghreifftiau da o welliannau i’r dull o gasglu a rhannu straeon cleifion. Fodd bynnag, mae angen i’r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith cyn y bydd hwn yn ddull cynhwysfawr a chynaliadwy o weithredu. Mae’n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn gwella’r broses o ddysgu o brofiad y claf trwy gytuno ar Strategaeth Profiad y Claf a’i gweithredu. Mae Strategaeth Profiad y Claf yn bodoli ar ffurf drafft a threfnwyd gweithdy ar gyfer mis Chwefror 2016. |

Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflwyno gwasanaeth rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr yn ei ysbytai cymuned a cheir strategaeth eglur a chyllid i gefnogi'r gwaith o ehangu'r gweithlu. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r broses o gyflenwi a storio meddyginiaethau, i gryfhau prosesau rheoli meddyginiaethau ac i fonitro a gwella perfformiad

**85.** Mae 'rheoli meddyginiaethau' yn golygu llawer mwy na phrynu cyffuriau. Mae'r term yn cynnwys yr holl brosesau ac ymddygiadau sy'n dylanwadu ar y defnydd clinigol a chost-effeithiol o feddyginiaethau yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol i gleifion. Mae angen rheoli meddyginiaethau cleifion yn dda er mwyn sicrhau bod eu triniaeth a'u gwellhad yn cael y sylw gorau posibl ac er mwyn sicrhau gwerth am arian o'u meddyginiaeth.

**86.** Ers blynyddoedd lawer, mae'r ysbytai cymuned ym Mhowys wedi caffael eu gwasanaethau rheoli meddyginiaethau a dosbarthu fferyllol gan ysbytai mewn dau Fwrdd Iechyd cyfagos o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae gwasanaethau'n newid yn gyflym yn y Bwrdd Iechyd oherwydd i Lywodraeth Cymru ddyfarnu £407,000 o gyllid Buddsoddi i Arbed yn ddiweddar i ddarparu gwasanaeth fferylliaeth a rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr i'r ysbytai cymuned. Cyflawnodd fy nhîm y gwaith maes cyn i'r cyllid gael ei ddyfarnu. Ond, lle bo'n briodol, cyfeiriodd fy ngwaith at y cyfleoedd y bydd y cyllid hwn yn eu cynnig.

**87.** Canfu fy ngwaith fod strategaeth eglur yn bodoli a chyllid i newid model y gwasanaeth fferylliaeth, er nad yw'r gwasanaeth wedi cael ei reoli'n gadarn hyd yma, ac nid yw wedi mwynhau proffil uchel ar lefel Weithredol.

**88.** Cyfyngedig yw'r gwasanaeth fferylliaeth mewn ysbytai cymuned wedi bod hyd yma. Dylai cyllid Buddsoddi i Arbed newydd alluogi mwy o waith amlddisgyblaeth, gwell mynediad y tu allan i oriau a mwy o bwyslais ar hyfforddiant.

**89.** Mae cyflenwi meddyginiaethau i ysbytai cymuned wedi bod yn foddhaol ond mae newidiadau i'r trefniadau presennol yn arwain at risgiau a chyfleoedd. Ceir lle i wella'r broses o storio meddyginiaethau ar y wardiau ac archwilio'r broses o baratoi meddyginiaethau i'w chwistrellu.

**90.** Mae gan y Bwrdd Iechyd rai prosesau da ond ceir problemau o ran cysoni meddyginiaethau, ansawdd a phrydlondeb gwybodaeth o ran rhyddhau cleifion, stiwardiaeth gwrth-ficrobaidd a chynorthwyo cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n iawn.

**91.** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei broses o fonitro meddyginiaethau mewn ysbytai cymuned er mwyn deall ei berfformiad yn well a rhoi sylw i'r problemau o ran digwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ac adweithiau andwyol.

**Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer rheoli apwyntiadau cleifion allanol dilynol lleol sydd wedi'u gohirio a threfniadau i gefnogi'r gwaith o weddnewid gwasanaethau. Ond mae'n rhaid iddo wneud mwy i asesu risgiau clinigol, i wella craffu'r Bwrdd ac i ddeall y sefyllfa ar gyfer mwyafrif cleifion Powys sy'n cael eu trin y tu allan i'r sir.**

**92.** Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac aml-ffased ac yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran llwybrau cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar dybiaeth y cyhoedd o ansawdd, parodrwydd i ymateb ac effeithlonrwydd cyffredinol byrddau iechyd. Maent yn ffurfio argraff gyntaf hollbwysig i lawer o gleifion, ac mae eu gweithrediad llwyddiannus yn hanfodol yn y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion.

**93.** Ers 2013, mae'r Prif Swyddog Meddygol a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda byrddau iechyd i benderfynu faint o gleifion sydd wedi bod yn aros yn rhy hir am apwyntiad dilynol (y cyfeirir ato fel 'ôl-groniad') a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

**94.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau darparu gwasanaeth gweithredol penodol y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- gwasanaethau darparwyr – gwasanaethau a ddarperir yn lleol gan y Bwrdd Iechyd yw'r rhain; a
- gwasanaethau a gomisiynir – gwasanaethau a gomisiynir gan fyrddau iechyd eraill yng Nghymru ac ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr ac a ddarperir y tu allan i'r sir.

**95.** Roedd tua 99,000 o bresenoldebau dilynol cleifion allanol yn 2014-15 a gwelwyd 83,000 ohonynt (tua 83 y cant) 'y tu allan i'r sir', h.y. gan ddarparwyr iechyd a gomisiynwyd. Mae fy ngwaith yn cyfeirio at wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd oni nodir yn benodol fel arall.

**96.** Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd ddull systematig o nodi nifer y cleifion allanol dilynol lleol ond bod angen iddo asesu'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol sydd wedi'u gohirio ac mae angen iddo ddeall yn well y sefyllfa i gleifion Powys sy'n cael eu trin y tu allan i'r sir.

**97.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn llwyddo i leihau nifer y gohiriadau i gleifion sy'n cael eu trin yn lleol, ond gallai wella trefniadau adrodd a sicrhau ar gyfer holl gleifion Powys.

**98.** Mae trefniadau gweithredol byrdymor ar waith er mwyn helpu i leihau apwyntiadau dilynol wedi'u gohirio a dylai trefniadau rheoli rhaglen a fabwysiadwyd yn ddiweddar gefnogi'r gwaith o weddnewid gwasanaethau yn yr hirdymor.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y profiad amser bwyd, i reoli costau’n fwy effeithiol ac i wella’r gwaith o adrodd ar berfformiad

**99.** Mae gwasanaethau arlwyo ysbytai’n rhan hanfodol o ofal cleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig o ran adsefydlu a gwellhad cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn ddibynnol ar gynllunio cadarn a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau i wardiau a chleifion. Mae angen cyfathrebu da hefyd ar draws yr amrywiaeth o grwpiau staff dan sylw, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.

**100.** Mae angen asesu a monitro’n briodol anghenion statws maeth cleifion a rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu prydau mewn amgylchedd sy’n briodol ar gyfer bwyta. Y canlyniad a ddymunir yw gwasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy’n cynnig dewis da o brydau maethlon sy’n gallu bodloni gofynion deietegol penodol cleifion.

**101.** Yn 2010, cynhaliwyd archwiliadau arlwyo ysbytai a maeth cleifion lleol ledled Cymru, i ddilyn gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yn 2002. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad[3] a oedd yn crynhoi’r canfyddiadau o’r gwaith hwn.

**102.** Yn ystod hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Hylif i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai. Roedd yn ofynnol i gyrff GIG gydymffurfio’n llawn â’r safonau erbyn mis Ebrill 2014. Er mwyn cefnogi gweithrediad y safonau, gweithiodd arlwywyr a deitegwyr ledled Cymru gyda’i gilydd i gynhyrchu Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2014.

**103.** Mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal diddordeb brwd yn y materion a amlygwyd gan waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymryd tystiolaeth gan dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012. Yn 2014, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ymrwymiad i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai’n gwneud gwaith dilynol priodol i fonitro sut y mae cyrff GIG wedi bwrw ymlaen â’i argymhellion cenedlaethol a lleol. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau unrhyw waith dilynol a wnaed wedi hynny mewn cyrff GIG ers 2010.

**104.** Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015, gwnaed gwaith dilynol gennym yn y Bwrdd Iechyd i asesu i ba raddau yr oedd wedi rhoi argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith. Aseswyd hefyd i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi sylw i’r argymhellion a wnaed yn rhan o’r archwiliad lleol yn 2010 ac unwaith eto yn 2014.

**105.** Daethpwyd i’r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau rhai agweddau ar y profiad pryd bwyd, i reoli costau’n fwy effeithiol ac i wella’r broses o adrodd ar berfformiad. Daethpwyd i’r casgliad hwn oherwydd:

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, Mawrth 2011

- bod trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maeth cleifion yn gwella ond mae angen gwella cydymffurfiad â rowndiau diodydd a argymhellir ;
- mae lle o hyd i wella profiadau amser bwyd i gleifion;
- bod cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cynyddu er gwaethaf gostyngiadau i archebion prydau bwyd a bod y bwlch rhwng costau arlwyo ac incwm nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn dal i fod yn rhy fawr; a
- bod angen i drefniadau ar gyfer adrodd ar arlwyo a maeth mewn ysbytai wella.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er nad oes camau gweithredu pwysig wedi'u cymryd o hyd mewn ychydig o feysydd allweddol

**106.** Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm rhaglen â mandad cenedlaethol a'm rhaglen leol o waith archwilio, mae fy ngwaith wedi canfod bod wyth argymhelliad o dri archwiliad heb gael eu rhoi ar waith o hyd, er gwaethaf y ffaith fod cynnydd da wedi'i wneud o ran rhoi sylw i'm hargymhellion. Mae'r cynharaf o 2012. Mae'r argymhellion hyn yn gymhleth i'w darparu ac wrthi'n cael eu gweithredu. Rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn 2016-17.

**107.** Yn gynharach yn 2015, yn rhan o'n Hadroddiad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014 a'n hasesiad strwythuredig, cyflwynwyd nifer o argymhellion gennym i'r Bwrdd Iechyd. Gwnaethom hynny gan ddisgwyl y byddai llawer o argymhellion yn cymryd mwy na chwe mis i roi sylw iddynt ac i ymsefydlu trefniadau gwaith newydd, oherwydd cymhlethdod y camau gweithredu gofynnol. Rydym wedi cynnig ein sylwadau ar gynnydd a wnaed yn fy adroddiad Asesiad Strwythuredig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos cynnydd da mewn nifer o feysydd, ond mae mwy i'w wneud o hyd i roi sylw llawn i argymhellion y llynedd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Datganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2015 |
| Datganiadau Ariannol Cryno ac Adroddiad Blynyddol | Medi 2015 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Tachwedd 2015 |
| Archwiliad annibynnol o ddatganiadau ariannol cyllid elusennol y Bwrdd Iechyd | Trefnwyd ar gyfer Rhagfyr 2015 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Ategu Data ac Ystafelloedd Cyfrifiaduron | Chwefror 2015 |
| Trefniadau adran 33 – Partneriaeth TGCh Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Ebrill 2015 |
| Adolygiad o Apwyntiadau Cleifion Allanol Dilynol | Medi 2015 |
| Adolygiad o Reoli Meddyginiaethau | Medi 2015 |
| Adolygiad Dilynol o Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai | Hydref 2015 |
| Asesiad Strwythuredig 2015 | Rhagfyr 2015 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2015 | Mai 2015 |

Hefyd, ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy’n dal i fod ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd a dyddiadau y rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a ragwelir |
|---|---|
| Adolygiad o Staffio Meddygol | Mehefin 2016 |
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Medi 2016 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2015 ffi archwilio arfaethedig o £158,227 ar gyfer gwaith cyfrifon ariannol (sy'n cynnwys £1,650 ar gyfer yr archwiliad annibynnol o'r Gronfa Elusennol). Er bod rhywfaint o waith yn dal i gael ei wneud, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

Nododd Cynllun Archwilio 2015 ffi archwilio arfaethedig o £106,078 ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad. Er bod rhywfaint o waith yn dal i gael ei wneud, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddwyd sylw iddynt yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai diystyriaeth o'r fath ddigwydd, fe'i gwelir fel risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gogwydd; ac<br>• yn gwerthuso'r rhesymeg am unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i fusnes arferol. | Cwblhawyd y gwaith yn rhan o'n profion archwilio. Adroddwyd gennym yn benodol y gwaith ar amcangyfrifon cyfrifyddu yn ein 'Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015. Dim materion sylweddol yn codi o ganlyniad i'n gwaith. |
| Ceir risg o gamddatganiad perthnasol ym mhob endid oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw ac, fel y cyfryw, caiff ei drin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Er bod y rhan fwyaf o incwm y Bwrdd Iechyd wedi'i ddiffinio o ran gwerth a'r cyfnod cyfrifyddu y mae'n berthnasol iddo, bydd fy nhîm archwilio yn gwerthuso pa fathau o refeniw sy'n arwain at risg o'r fath a, lle bo'n briodol, yn canolbwyntio profion ar amseriad a gwerth y trafodion hyn. | Incwm yn destun profion archwilio pendant. Dim materion sylweddol yn codi o ganlyniad i'n gwaith. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni dyletswyddau ariannol statudol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth fydd y dyletswyddau ariannol statudol hynny. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau yn fuan.<br>Roedd y sefyllfa 10 mis yn dangos diffyg o £16.7 miliwn yn y flwyddyn hyd yn hyn ac yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £21.2 miliwn (y mae £19 miliwn ohono'n ymwneud â'r gorwariant hanesyddol a ddygwyd ymlaen o 2013-14).<br>Efallai y byddaf yn dewis cyhoeddi adroddiad perthnasol ar y datganiadau ariannol yn esbonio unrhyw fethiannau a'r amgylchiadau perthnasol.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr gael eu gogwyddo mewn ymdrech i gyflawni unrhyw ddyletswyddau ariannol a bennir. | Bydd fy nhîm archwilio'n canolbwyntio ei brofion ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwydd adrodd. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â dyfarniadau sylweddol ac amcangyfrifon cyfrifyddu ar ddiwedd blwyddyn, gan gynnwys hawliadau gofal iechyd parhaus a gwariant ar ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol. | Adroddwyd gwaith ar amcangyfrifon cyfrifyddu yn ein 'Hadroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015. Dim materion sylweddol yn codi o ganlyniad i'n gwaith.<br>Adroddwyd dyletswyddau ariannol yn ein hadroddiad perthnasol a gyhoeddwyd ynghyd â'n barn archwilio ar gyfer 2014-15. |
| Nodwyd gennym yn rhan o'r gwaith archwilio yn 2013-14 y talwyd dau gyfarwyddwr gweithredol uwchben y bandiau cyflog a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Wedi hynny, cafodd y Bwrdd Iechyd ôl-gymeradwyaeth i'r lefelau cyflog hyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu unrhyw newidiadau i daliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol newydd a benodwyd yn ystod y flwyddyn) i sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth yn cyd-fynd â hysbysiadau Llywodraeth Cymru. | Dim materion sylweddol yn codi o ganlyniad i'n gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhelliad a gafodd ei gynnwys yn ein 'Hadroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru